# CAN

AR YR ANFFAWD DRA ANYMUNOL A GAFODD

# MR. R. H. RHYS, AROLYGYDD GWAITH MWN,

## (MINERAL AGENT,) ABERDAR,

## SEF COLLI EI OLWG.

CYNNWYSIAD.

Golwg ar waith y greadigaeth.—Sylwi ar ddyn fel creadur rhesymol, wedi cael ei gynysgaeddu a phwerau tu hwnt i bob creadur arall.—Yr Awen.—Gwrthrych y testun yn dyfod i mewn, sef Mr. Rhys.—Yr anffawd.—Ei analluogrwydd i gerdded wrtho'i hun.—Prydferthwch deildŷ o gylch ei aneddle ac yntau heb allu ei ganfod.—Ei anghysur yn mysg ei deulu.—Yr anffodiog yn deimladwy yn llefaru.—Ei golled i gyflawni ei swydd.—Cyfeillach cyfeillion yn felus, ond ni wel hwynt.—Ei annymunoldeb i weled gwaith y greadigaeth yn eu harddwch perffeithiaf.—Sain cerddoriaeth y goedwig yn soniarus, ac yntau heb allu i weled y cantorion.—Y teimlad a ddylid ei ddangos i wrthrych ein testun, sef Mr. Rhys, wedi colli ei olwg.

" Perffaith yw dy waith Duw Ion!
Dethol dy ffyrdd a doethion;
A mad ac anchwiliadwy,
Dduw mawr! ac ni fu ddim mwy."—G. OWAIN.

Holl waith ein Creawdwr, ein Perydd a'n Por,
Sy'n dra derchafedig trwy'r ddaear a'r mor;
Y lluoedd wybrenol, cyhoeddant ei waith
A'i allu anfeidrol—hynodol y iaith!

Anneirif ymlusgiaid, ac ednod bob rhyw,
A'r pysg yn y dyfroedd yn lluoedd bob lliw,
Hwynt oll a ddangosant trwy gariad modd coeth,
Alluoedd eu Trefnwr a'u Deddfwr mâd doeth.

Ond Dyn ydyw gwrthrych prif addurn ei waith,
Yn ben ac yn Arglwydd y gread fawr faith,
A'i ffurfiad mor rhyfedd 'n hardd beiriant diwall,
Ar ddelw 'i Wneuthurwr fe'i crewyd mor gâll.

Mae'n berchen fath archwaeth ac arogl bur,
A'r teimlad sy'n hyfryd rhag archoll neu gur,
Y gweled, a'r clywed, pyrth ydynt i'r dyn,
Pob cymmal ac aelod y'nt fuddiol bob un.

Pa beth yn gyfnewyd rydd dyn yn ei fyw
Am golli'r peth lleiaf o'i ddefnydd—pwngc yw?
Dim! maent oll yn rhy werthfawr, ni ellir yn rhwydd
Gyrhaeddyd dedwyddwch os syrth un o'i swydd.

O, f' Awen dwyrea, 'n awr tyred ymla'n,
Ar destun dewisol mae'n gymwys rhoi cân:
Sef anffawd dor-calon a gafodd ein Rhys,
Sef "colli ei olwg," ow dynged! fe'i gwys.

Y ddamwain* ddigwyddodd truenus y tro,
Och! oriau, bu'n chwerw, fe'i ceidw mewn co';
Diniwed ei amcan wrth fyned i'r fan,
Mae dyna'i gorddiwes, oer hynod i'w ran.

* Mai 27ain, 1847.

Mae'n rhy analluog i dramwy'n ddifraw,
Heb arall i'w dywys ef gerfydd ei law,
Ar hyd llwybr cymmwys hyderus ei hynt,
Yn eithaf diogel, mewn gofal fal cynt.

O gylch ei anneddle mae'n hyfryd a hardd,
Gan amledd per ffrwythau amdoawl a dardd,
Lle gynt ymhyfrydai wrth ganfod eu gwedd—
Eu golwg siriolwych byth mwyach ni fedd.

Ymhlith ei gyd-deulu dedwyddawl hyd arch,
Lle caffai'n wastadawl roesawiad a pharch,
A meddu diddanwch teuluaidd mwyn cu;
Ran addas rinweddol tra llwyr trwy y llu.

Er clywed eu trydar a'u llafar hwy'n llon,
Ni wel eu gwynebryd, 'r hyn laesa ei fron;
Un pleser gweledig ni phrofa ef mwy,
Gyr hyn trwy ei galon yn glafaidd drom glwy'.

I'm tyb, yr anffodiog lafarai dan loes,—
"Rhaid i m'i foddloni hyn bellach trwy f' oes;
"Er colli fy ngolwg oedd gysur a nerth,
"Oddiar pan eu collais 'rwy'n teimlo eu gwerth."

"O dynged anffodus ddigwyddodd i'm rhan,
"Cael arall i'm tywys i fyn'd i bob man;
"Nis gallaf ddesgrifio y colled a ge's,
"O golli fy ngolwg, braint werthfawr ei les."

Yn ngwyneb cymmwysder cyflawni ei swydd †
Oedd iddo'n briodol naturiol, a rhwydd;
Amdodd amddifadrwydd e'n gywir i'r gwaith,
Trwy golli ei olwg oedd fwyniant tra maith.

† Mineral Agent.

Pan gwrdd a chyfeillion, rhai mwynion eu moes,
A thalu llon gyfarch heb unrhyw air croes:
Ymddiddan yn frawdol a thwymgar ei llais,
Ni chenfydd eu gwenau—gyr frathiad i'w ais.

Pan rhodia yn yr hafddydd ar dywydd o des,
A'r haul yn frwd eirian, danbeidiawl o wres,
Gan hyfryd ffrwythloni holl natur a maeth,
A dengys ddoethineb ein Crewr a'i gwnaeth.

A theimlo'i wawl tesog gynheswr gwiw rydd,
Pob grawn ac eginyn a bywyd a dydd;
Y coedydd yn gwisgo eu gwyrdd-ddail hoff wedd,
Holl anian yn fywiog edrycha mewn hedd.

Pwy ddyn na lawena a'i fynwes ar dân,
Wrth ganfod holl natur mewn agwedd mor lân;
I Rhys 'd oes hyfrydwch o'u gweled byth mwy,
Braidd gyra hyn dorri ei galon yn ddwy.

I'w glustiau mae cerddi mân adar y llwyn
Yn eithaf soniarus, mawreddog, a mwyn;
Hyn grea'r fath bleser 'n ei fynwes wiw fad;
Eu gweled f'ai iddo fil mwy o fwynâd.

Dangoser cyd-deimlad, heb arwydd o frad,
I Mr. Rhys enwog, llwys heini'n llesâd;
Os collodd ei olwg trwy ddamwain a ddaeth,
Anhappus i'w iddo, a chyfyng nod caeth.

Ymgeledd bur gymwys, boed iddo, byd hael,
A'i ddoeth gyfarwyddo a chymorth diffael;
Truenus ei weled e'n unig ei hun,
Ac yntau heb allu i wel'd lliw na llun.

Pwy Gristion na roddai gynnorthwy wir ffawd,
I'r dall, a'i dywysu, can's mae iddo'n frawd;
Rhyfyg ofnadwy yw gwawdio dyn dall,
Yngwydd ei Wneuthurwr sy'n gwylied pob gwall.

CYDYMDEIMLWR.

*Aberdar.* Sef JOHN JONES, (*Eiddil Glan Cynon.*)

W. MORRIS, ARGRAFFYDD, LLYTHYRDY, HEOL FAWR, ABERDAR.

5.15
X 205210898